

# Adolygiad Thematig Cenedlaethol o Wasanaethau Mabwysiadu

Crynodeb i bobl ifanc



# Helo

Dyma adolygiad o ba mor dda mae gwasanaethau mabwysiadu yn gweithio ledled Cymru.

## Pwy ydyn ni

**Arolygiaeth Gofal Cymru ydyn ni.**

Rydyn ni'n gwirio gwasanaethau sy'n gofalu am blant ac oedolion. Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n ddiogel ac yn gofalu am bobl yn y ffordd iawn.

Os oes angen i wasanaethau wella, rydyn ni'n gweithredu.

## Pam mae mabwysiadu'n bwysig

**Mabwysiadu yw pan fydd plentyn yn dod yn rhan o deulu newydd am oes.** Mae hyn fel arfer yn digwydd pan nad yw'n ddiogel neu'n bosibl i blentyn fyw gyda'i deulu genedigol.

Mae plant sy'n cael eu mabwysiadu yn aml wedi profi pethau anodd a gofidus. Mae angen y cymorth iawn arnyn nhw ar yr adeg iawn.

Dyna pam mae'n rhaid i wasanaethau mabwysiadu weithio'n ofalus i ddod o hyd i'r teulu iawn a helpu plant i deimlo'n ddiogel, yn cael eu caru ac yn cael gofal.



**Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2025, fe wnaethon ni arolygu gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru.**



# Sut gwnaethon ni'r adolygiad

Fe wnaethon ni arolygu'r pum **Cydweithfa Mabwysiadu Ranbarthol**:

- Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin
- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd



## **i** Cydweithfa Mabwysiadu Ranbarthol

— grŵp o gynghorau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i deuluoedd diogel a chariadus i blant. Maen nhw hefyd yn:

- helpu pobl i ddeall mabwysiadu
- gwirio pobl sydd eisiau mabwysiadu
- gweithio gyda gwasanaethau i wneud yn siŵr bod plant sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd yn cael y cymorth iawn.

## Cyn yr arolygiadau:



Fe wnaethon ni ofyn i bob Cydweithfa Mabwysiadu Ranbarthol ddweud wrthyn ni beth roedden nhw'n meddwl oedd yn gweithio'n dda a beth allai wella.



Fe wnaethon ni edrych ar gofnodion a dogfennau mabwysiadu.



Fe wnaethon ni arsylwi paneli mabwysiadu a grwpiau cymorth.

Fe wnaethon ni siarad â:



phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fabwysiadu



rhieni genedigol, rhieni mabwysiadol a gofalmwyr maeth



staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.



Fe wnaethon ni ddefnyddio arolygon i glywed gan fwy o bobl.



Fe wnaethon ni edrych ar **83** o gofnodion mabwysiadu.



Fe wnaethon ni ddarllen am brofiadau **21** o blant a theuluoedd.

Fe wnaeth hyn ein helpu i ddeall sut mae gwasanaethau mabwysiadu yn gweithio ledled Cymru.

# Trosolwg

Dyma'r prif bethau ddaethon ni o hyd iddyn nhw.

Mae gwasanaethau mabwysiadu yn gweithio'n dda mewn llawer o ffyrdd. Ond dydy ansawdd y gwasanaethau ddim yr un fath ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod rhai plant a theuluoedd yn cael profiad gwell nag eraill.



## Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae llawer o weithwyr medrus a phrofiadol sy'n poeni am blant ac yn rhoi eu hanghenion nhw'n gyntaf.
- Mae gweithwyr yn deall y gallai plant fod wedi profi pethau anodd ac maen nhw'n eu cefnogi.
- Mae staff yn canolbwyntio ar hunaniaeth, stori bywyd a phrofiadau pob plentyn.
- Mae gwasanaethau'n parchu cefndir, diwylliant a hunaniaeth plant.
- Mae arweinwyr a rheolwyr yn cefnogi staff ac yn eu helpu i wella.
- Mae gweithwyr proffesiynol ar baneli mabwysiadu yn edrych yn ofalus ar gynlluniau ac yn gwneud yn siŵr bod y trefniadau'n gweithio'n dda.
- Mae gwasanaethau'n parchu hawliau plant.
- Mae gwasanaethau'n gweithio'n ofalus gyda theuluoedd genedigol.

**i Hawliau** — mae gan bob plentyn hawliau. Mae'r hawliau hyn wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn — CCUHP.



## Beth sydd angen gwella

- Does dim digon o bobl a theuluoedd sydd eisiau mabwysiadu.
- Gallai gwasanaethau wneud gwell defnydd o wefannau, cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth ar-lein.
- Dydy teuluoedd ddim bob amser yn cael y cymorth iawn yn gyflym ar ôl mabwysiadu.
- Dydy gwaith taith bywyd a llythyrau bywyd diweddarach ddim bob amser yn cael eu cwblhau i'r un safon ledled Cymru.
- Mae rhai cytundebau rhwng gwasanaethau a sefydliadau wedi dyddio ac mae angen iddyn nhw fod yn gliriach.
- Mae angen i wasanaethau gofnodi'n gliriach sut maen nhw'n cadw plant yn ddiogel, a gwirio hyn.
- Dydy systemau gwybodaeth ddim bob amser yn gweithio gyda'i gilydd. Gall hyn ei gwneud hi'n anoddach i wasanaethau rannu gwybodaeth.

**i Gwaith taith bywyd** — helpu plant i ddeall stori eu bywyd, eu teulu genedigol a beth sydd wedi digwydd yn eu bywyd.



# Gofalu am blant a chefnogi eu lles

Mae hyn yn ymwneud â sut mae plentyn yn teimlo ac yn ymdopi â bywyd. Mae'n cynnwys ei gorff, ei feddwl, ei deimladau a'i berthnasoedd.

Roedden ni eisiau gwybod:

- 1** A all pobl gael help gan wasanaethau mabwysiadu pan fydd ei angen arnyn nhw?
- 2** A yw plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael cymorth gyda'u lles?
- 3** A yw gwasanaethau'n cefnogi hunaniaeth, diwylliant ac iaith pob plentyn, gan gynnwys y Gymraeg?

## Beth ddaethon ni o hyd iddo ↓

### Cael gwybodaeth a gofyn am help

#### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gwybodaeth am fabwysiadu fel arfer yn hawdd dod o hyd iddi ar-lein.
- Mae gwasanaethau mabwysiadu fel arfer yn ymateb yn gyflym pan fydd pobl yn holi am fabwysiadu am y tro cyntaf.
- Mae pecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon o fewn pum diwrnod gwaith, neu'n gynt.
- Mae gan rai rhanbarthau adnoddau a fideos defnyddiol ar-lein.

#### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy'r wybodaeth ar-lein ddim yr un fath ledled Cymru.
- Dydy pobl ddim bob amser yn cael gwybodaeth glir am y cymorth sydd ar gael ar ôl iddyn nhw fabwysiadu.

### Hawliau a barn plant, a theuluoedd genedigol

#### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gweithwyr yn gwrandao ar blant ac yn cynnwys eu barn wrth wneud penderfyniadau.
- Gall plant a theuluoedd gael cymorth eiriolaeth.
- Mae gweithwyr yn ceisio gwrandao ar deuluoedd genedigol a'u trin â gofal a pharch.
- Mae teuluoedd genedigol yn aml yn cael gwybodaeth a chymorth clir.

#### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Mae rhai rhannau o Gymru yn well nag eraill am hyn, ac mae angen i hyn newid.

**i Eiriolaeth** — cymorth sy'n helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall eu dewisiadau, dweud eu barn, cael pobl i wrando arnyn nhw a diogelu eu hawliau.

### 😊 Enghraifft o waith da!

Ar ôl i blentyn symud i fyw gyda'i deulu mabwysiadol, fe wnaeth gweithiwr cymdeithasol wirio sut roedd y plentyn yn ymgartrefu.

Fe wnaeth y gweithiwr siarad â'r rhieni mabwysiadol. Fe wnaeth hefyd siarad â rhywun annibynnol oedd yn adnabod y teulu'n dda.

Fe wnaeth hyn helpu'r gweithiwr cymdeithasol i ddeall mwy am brofiad y plentyn a pha mor dda roedd y plentyn yn ymgartrefu yn ei gartref newydd.

## Cadw plant yn ddiogel

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae staff yn gweithio'n galed i gadw plant yn ddiogel a chefnogi eu lles.
- Mae staff yn cymryd unrhyw bryderon am ddiogelwch plentyn o ddifrif. Maen nhw'n siarad â rheolwyr a gwasanaethau eraill am y pryderon.
- Mae gweithwyr yn gweithredu'n gyflym pan fyddan nhw'n poeni am blentyn.

### ! Beth sydd angen gwella

- Dydy pryderon am ddiogelwch a beth ddigwyddodd wedyn ddim yn cael eu cofnodi a'u gwirio yn yr un ffordd ledled Cymru.
- Dydy rhai gwiriadau diogelwch ddim bob amser yn cael eu cofnodi'n glir. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau sydd heb eu trefnu ymlaen llaw.
- Mae gwybodaeth yn cael ei chadw mewn gwahanol systemau cyfrifiadurol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach gweld patrymau neu wirio beth ddigwyddodd wedyn.

## Sefydlogrwydd Cynnar Cymru

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gwasanaethau mabwysiadu yn defnyddio Fframwaith Cenedlaethol Sefydlogrwydd Cynnar Cymru.
- Mae staff yn rhannu arferion da ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd.

### ! Beth sydd angen gwella

- Mae Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn gweithio'n well mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill.
- Mae angen mwy o hyder, profiad a hyfforddiant ar weithwyr i ddefnyddio'r dull hwn.

**i Sefydlogrwydd cynnar** — helpu plant i osgoi symud o un cartref i'r llall. Mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu a chael teulu sefydlog cyn gynted â phosibl.

## Hunaniaeth, diwylliant a'r Gymraeg

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gwasanaethau'n parchu hunaniaeth, diwylliant, crefydd ac iaith plant.
- Pan fydd hynny'n bosibl, mae plant yn cael eu paru â rhieni mabwysiadol sydd â chefnidir tebyg. Pan nad yw hynny'n bosibl, mae teuluoedd yn cael cymorth i helpu'r plant i gadw cysylltiad â'u diwylliant a'u hunaniaeth.
- Mae gwasanaethau'n gwneud yn siŵr bod y broses fabwysiadu ar gael yn Gymraeg.

### ! Beth sydd angen gwella

- Does dim digon o weithwyr sy'n siarad Cymraeg mewn rhai ardaloedd.
- Mae adnoddau digidol a gwybodaeth yn Gymraeg yn well mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill.



# Gofal a chymorth

Roedden ni eisiau gwybod:

A yw plant a'u teuluoedd genedigol a mabwysiadol yn cael y cymorth sydd ei angen arny'n nhw i wneud yn dda a gwella eu lles?

**Beth ddaethon ni o hyd iddo** ↓

## Gwirio pobl sydd eisiau mabwysiadu

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae pobl yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gallu gofalu am blentyn yn ddiogel.
- Mae gweithwyr ledled Cymru yn defnyddio'r un broses genedlaethol i asesu pobl.
- Mae gwasanaethau'n gwirio'n ofalus bod oedolion yn gallu rhoi'r gofal, yr amynedd a'r cymorth sydd eu hangen ar blant.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Mae asesiadau'n dod yn fwy cymhleth ac yn gallu cymryd mwy o amser i'w cwblhau.
- Weithiau mae'n rhaid i weithwyr aros am wybodaeth feddygol neu wybodaeth gan arbenigwyr. Gall hyn arafu penderfyniadau.

## Dod o hyd i'r teulu iawn i blant

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gweithwyr yn cefnogi plant yn ofalus pan fyddan nhw'n symud o ofal maeth i fyw gyda'u teulu mabwysiadol.
- Mae'r rhan fwyaf o weithwyr mabwysiadu a gweithwyr cymdeithasol plant yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.
- Mae gan rai gwasanaethau adnoddau sy'n eu helpu i ddeall bywyd, perthnasoedd ac anghenion plentyn.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy dod o hyd i deulu mabwysiadol i blentyn a'i symud i fyw gyda'r teulu ddim bob amser yn digwydd yn ddigon cyflym.
- Mae rhai plant yn aros yn rhy hir ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

## Cymorth ar ôl mabwysiadu

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae llawer o deuluoedd yn cael cymorth da ar ôl mabwysiadu. Gall hyn gynnwys therapi, cymorth gan bobl sydd â phrofiadau tebyg, a help gyda gwaith taith bywyd.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy cymorth ar ôl mabwysiadu ddim yr un fath ledled Cymru.
- Mae gan y rhan fwyaf o wasanaethau restrau aros ar gyfer cymorth mabwysiadu. Dydy pobl sydd ar y rhestrau aros ddim bob amser yn cael gwybod beth sy'n digwydd.
- Gall fod yn anoddach darparu cymorth mewn rhai ardaloedd gwledig.

## 😊 Enghraifft o waith da!

Mewn un enghraifft, roedd stori bywyd plentyn yn cynnwys lluniau o'i deulu genedigol a'i deulu maeth, a straeon wedi'u hysgrifennu'n uniongyrchol iddo. Fe wnaeth hyn helpu'r plentyn i ddeall beth oedd wedi digwydd yn ei fywyd a theimlo bod ei stori wedi cael ei hadrodd mewn ffordd sensitif.

## 😊 Enghraifft o waith da!

"Cafodd fy mab gyfnod anodd wrth symud atom ni ... cawson ni ein cyfeirio at therapydd chwarae gwyh. Mae hi wedi helpu i gadw ein teulu gyda'i gilydd."

Rhiant mabwysiadol

## Cynlluniau cymorth mabwysiadu

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gweithwyr yn helpu teuluoedd mabwysiadol i feddwl am gyswllt diogel â theuluoedd genedigol.
- Mae rhai gweithwyr yn defnyddio gwahanol ffyrdd o helpu pobl i gadw mewn cysylltiad, nid llythyrau yn unig.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy cynlluniau cymorth mabwysiadu ddim bob amser yn cael eu hadolygu neu eu diweddarau pan fydd anghenion yn newid.
- Dydy trefniadau cyswllt ddim bob amser yn cael eu gwirio a'u diweddarau wrth i blant fynd yn hŷn.

## Gwirio cynlluniau gofal a chymorth plant

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwirio sut mae plant yn dod ymlaen cyn i Orchmynion Mabwysiadu gael eu gwneud.
- Mae rhai Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gwirio a yw gwaith taith bywyd a llythyrau bywyd diweddarach yn cael eu cwblhau.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Mae rhai rhannau o Gymru yn well nag eraill am hyn.

**i Swyddogion Adolygu Annibynnol** — pobl sy'n gwirio bod plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnyh nhw.

**i Gorchymyn Mabwysiadu** — penderfyniad cyfreithiol sy'n gwneud mabwysiadu'n swyddogol ac yn barhaol.

**i Llythyrau bywyd diweddarach** — llythyrau sy'n cael eu hysgrifennu gan weithiwr cymdeithasol plentyn. Maen nhw'n esbonio profiadau cynnar y plentyn a'r rheswm dros ei fabwysiadu. Maen nhw i'w darllen pan fydd y plentyn yn hŷn.

## Cofnodi taith bywyd plentyn

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae rhai enghreifftiau ardderchog o waith taith bywyd.
- Mae gan rai plant luniau, gwybodaeth a llythyrau bywyd diweddarach defnyddiol.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy gwaith taith bywyd a llythyrau bywyd diweddarach ddim bob amser yn cael eu cwblhau ar amser neu i'r un safon. Mae hyn yn golygu nad yw pob plentyn yn cael yr un help i ddeall ei stori.

### 😊 Enghraifft o waith da!

“Roedd y gwasanaethau mabwysiadu ... yn gallu ein cefnogi a rhoi gwybodaeth i ni oedd ar goll o waith papur ein plentyn.”

Rhiant mabwysiadol

## Os bydd lleoliad yn dod i ben cyn i'r mabwysiadu gael ei gwblhau

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae'r rhan fwyaf o leoliadau mabwysiadu yng Nghymru yn sefydlog. Mae hyn yn golygu mai anaml iawn y mae lleoliad yn dod i ben cyn i'r mabwysiadu gael ei gwblhau. O'r 196 o blant gafodd eu mabwysiadu yng Nghymru rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025, dim ond 9 lleoliad ddaeth i ben cyn i'r mabwysiadu gael ei gwblhau.
- Os bydd lleoliad yn dod i ben, mae gwasanaethau'n edrych ar beth ddigwyddodd. Mae hyn yn eu helpu i ddysgu o gamgymeriadau a gwella.

### ! Beth sydd angen gwella

- Mae angen i wasanaethau barhau i ddysgu am beth sy'n digwydd pan fydd lleoliad yn dod i ben.
- Mae angen mwy o wybodaeth i helpu gweithwyr i baru'r plentyn â'r teulu iawn.

**i Lleoliad** — pan fydd plentyn yn symud i fyw gyda'i deulu mabwysiadol.

## Deall trawma ac anghenion plant

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae gweithwyr yn ceisio deall hanes ac anghenion emosiynol pob plentyn. Maen nhw'n defnyddio adnoddau creadigol i helpu plant i ddeall stori eu bywyd.
- Mae hyfforddiant ar gael i helpu pobl i ddeall trawma a sut gall profiadau cynnar effeithio ar blant.

### ! Beth sydd angen gwella

- Mae rhai gwasanaethau mabwysiadu yn well nag eraill am ddeall anghenion plant a rhoi cymorth. Mae angen i hyn newid. Dylai pob plentyn a theulu gael cymorth gofalus sy'n ystyriol o drawma, lle bynnag maen nhw'n byw.

## Gwranddo ar blant

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae llawer o adroddiadau'n cynnwys barn a phrofiadau plant.
- Mae rhai adroddiadau wedi'u hysgrifennu fel petai'r plentyn yn siarad. Gall hyn helpu plant i ddeall yr adroddiadau pan fyddan nhw'n hŷn.

### ! Beth sydd angen gwella

- Mae rhai adroddiadau'n dal i ddweud bod plentyn yn rhy ifanc i fynegi ei farn. Gall hyd yn oed plant ifanc iawn ddangos beth sydd ei angen arny'n nhw drwy eu hymddygiad, eu perthnasoedd a'u teimladau.

**i Cymorth sy'n ystyriol o drawma** — cymorth sy'n seiliedig ar ddeall bod llawer o bobl wedi profi sefyllfaoedd anodd. Gall y profiadau hyn effeithio arny'n nhw mewn gwahanol ffyrdd.



## Paneli mabwysiadu

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae paneli mabwysiadu yn gweithio'n dda ledled Cymru ac yn canolbwyntio ar anghenion plant.
- Mae penderfyniadau fel arfer yn cael eu gwneud ar yr adeg iawn ac yn seiliedig ar ystyriaeth ofalus.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Dydy cofnodion ysgrifenedig ddim bob amser yn dangos sut a pham y cafodd penderfyniadau eu gwneud.

## Dod o hyd i ddigon o bobl i fabwysiadu

### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae pob gwasanaeth mabwysiadu yn ceisio dod o hyd i fwy o bobl sydd eisiau mabwysiadu. Maen nhw'n rhannu gwybodaeth ac yn cynnal ymgyrchoedd i annog mwy o bobl i gysylltu â gwasanaeth mabwysiadu.

### ⚠ Beth sydd angen gwella

- Mae angen mwy o bobl yng Nghymru sydd eisiau mabwysiadu.
- Mae angen mwy o bobl sy'n barod i fabwysiadu brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, neu blant sydd ag anghenion mwy cymhleth.
- Dylai gwasanaethau egluro'n well pa gymorth sydd ar gael i bobl sy'n meddwl am fabwysiadu. Gallai hyn helpu mwy o bobl i deimlo'n hyderus am wneud cais.



# gwasanaethau'n cael eu rhedeg

Roedden ni eisiau gwybod:

A yw arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod gwasanaethau mabwysiadu yn cael eu rhedeg yn dda ac yn rhoi'r cymorth iawn i bobl?

## Yr hyn a ganfuom ➡



### ★ Beth sy'n gweithio'n dda

- Mae arweinwyr yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Dywedodd gweithwyr fod arweinwyr yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u harwain yn dda.
- Mae arweinwyr yn helpu staff i ddysgu, siarad yn agored a meddwl am sut i wella.
- Mae gweithwyr mewn Cydweithfeydd Mabwysiadu Rhanbarthol a gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol yn fedrus, yn brofiadol ac yn ymroddedig. Anghenion plant yw prif ffocws eu gwaith.
- Mae gweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau diogelu.
- Mae gweithwyr yn gweithio'n dda gyda gweithwyr cymdeithasol plant.
- Mae rhai gwasanaethau mabwysiadu yn gwirio eu gwaith, yn rhannu beth sy'n gweithio'n dda ac yn parhau i ddysgu.
- Mae gwasanaethau'n gofyn i blant a theuluoedd am eu profiadau ac yn defnyddio'r adborth hwn i wella.

### ! Beth sydd angen gwella

- Dydy arweinyddiaeth ddim yr un mor gryf ledled Cymru.
- Does dim digon o staff mewn rhai gwasanaethau.
- Mae rhai swyddi pwysig yn cael eu hariannu am gyfnodau byr. Gall hyn wneud gwasanaethau'n llai sefydlog.
- Mewn rhai ardaloedd, mae gweithwyr cymdeithasol plant yn newid yn aml. Gall hyn ei gwneud hi'n anoddach i blant a theuluoedd feithrin ymddiriedaeth.
- Dydy rhai canllawiau a Datganiadau o Ddiben ddim yn gyflawn nac yn gyfredol.
- Mae angen i bob gwasanaeth wirio ansawdd ei waith.
- Mae angen i wasanaethau gasglu mwy o wybodaeth am bryderon diogelwch a beth ddigwyddodd wedyn.
- Dydy systemau data ddim bob amser yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae angen i hyn newid.

**i Datganiad o Ddiben** — dogfen swyddogol sy'n egluro sut mae gwasanaeth mabwysiadu yn gweithio a beth gall pobl ei ddisgwyl ganddo.

# Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn ni'n parhau i wirio gwasanaethau mabwysiadu a sut maen nhw'n gwella.

Byddwn ni'n:

- gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i wneud yn siŵr bod canfyddiadau'r adolygiad hwn yn helpu i wella'r ffordd mae gwasanaethau mabwysiadu yn cael eu cynllunio a'u rhedeg
- parhau i wirio cynnydd drwy ein harolygiadau arferol.

## Diolch am ddarllen hwn

Eisiau gwybod mwy? Gallwch ddarllen yr [Adolygiad Thematig Cenedlaethol llawn o Wasanaethau Mabwysiadu](#) ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru.

